Stop it Now! Cymru a Parents Protect!

Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf Bwrdeistref Sirol Conwy

Eich helpu chi i amddiffyn eich plant rhag cam-drin rhywiol

Mae Stop it Now! Cymru yn rhaglen i atal cam-drin plant yn rhywiol a gyflwynir gan Sefydliad Lucy Faithfull. Rydyn ni'n gweithio i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-drin rhywiol drwy weithio gyda rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol o sawl asiantaeth, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd, drwy godi ymwybyddiaeth ac addysgu. Hefyd rydyn ni'n cynnig llinell gymorth gyfrinachol i oedolion sydd â phryder am gam-drin plant yn rhywiol ar 0808 1000 900. Rydyn ni wedi derbyn grant gan gynllun Teuluoedd yn Gyntaf yn ardal Conwy ac rydyn ni'n gallu cynnig y sesiynau canlynol ledled **Conwy o 1 Ebrill 2022** ar gyfer rhieni, gofalwyr a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant sydd ag anghenion ychwanegol. Rydyn ni'n cynnig sesiynau amrywiol i ddiwallu anghenion rhieni a gofalwyr i gefnogi teuluoedd sydd â phlant ag anghenion ychwanegol.

Rydym yn chwilio am Grwpiau i gynnal sesiynau AM DDIM:

Rhieni'n Amddiffyn

Sesiynau 2 awr anffurfiol i greu mwy o ymwybyddiaeth ac i roi gwybodaeth i oedolion am y ffeithiau cysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol a'n cyfrifoldeb ni i'w atal, gyda'r wybodaeth wedi'i theilwra i fod yn addas i anghenion plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Dyma gynnwys y Sesiwn:

- Deall ymddygiad y sawl sy'n cam-drin
- Sut a pham mae pobl yn cam-drin plant yn rhywiol
- Deall sut mae plant sydd ag anghenion ychwanegol yn fwy agored i niwed
- Y rhwystrau sy'n atal adnabod ymddygiad niweidiol a sut mae eu goresgyn
- Y camau gweithredu cadarnhaol y gall oedolion eu cymryd i atal cam-drin plant yn rhywiol

Gweithwyr Proffesiynol

Sesiynau 2 awr anffurfiol i greu mwy o ymwybyddiaeth ac i roi gwybodaeth i weithwyr proffesiynol am y ffeithiau cysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol a'n cyfrifoldeb ni i'w atal, gyda'r wybodaeth wedi'i theilwra i fod yn addas i anghenion plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Dyma gynnwys y Sesiwn:

- Deall ymddygiad y sawl sy'n cam-drin
- Sut a pham mae pobl yn cam-drin plant yn rhywiol
- Deall sut mae plant sydd ag anghenion ychwanegol yn fwy agored i niwed
- Y rhwystrau sy'n atal adnabod ymddygiad niweidiol a sut mae eu goresgyn
- Y camau gweithredu cadarnhaol y gall oedolion eu cymryd i atal cam-drin plant yn rhywiol mewn swydd broffesiynol yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu deuluoedd

Diogelwch ar y Rhyngrwyd

Sesiynau 2 awr anffurfiol i addysgu a meithrin hyder y cyfranogwyr mewn materion cysylltiedig â diogelwch y rhyngrwyd ac amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-drin ar-lein, gyda'r wybodaeth wedi'i theilwra i fod yn addas i anghenion plant sydd ag anghenion ychwanegol.

Dyma gynnwys y Sesiwn:

- Trafodaeth ar ddefnydd positif a negyddol o'r Rhyngrwyd
- Sut mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd i gam-drin plant
- Materion cysylltiedig â meithrin perthynas amhriodol ar-lein, secstio, seibr-fwlio ac edrych ar luniau anghyfreithlon o blant
- Y camau gweithredu ataliol cadarnhaol i'w cymryd i amddiffyn plant rhag cam-drin ar-lein.

Datblygiad Rhywiol Plant Cyn ac Ar Ôl yr Arddegau

Sesiynau 2 awr anffurfiol i addysgu a meithrin hyder y cyfranogwyr mewn deall ymddygiad iach, a disgwyliedig i ddatblygiad, ac ymddygiad nad yw'n briodol ac sy'n gallu achosi niwed neu wneud plentyn yn fwy agored i niwed

Dyma gynnwys y Sesiwn:

- Trafodaeth ar beth sy'n ymddygiad iach, a disgwyliedig i oedran, ar gyfer plant dan 5 oed a rhwng 5 ac 11 oed
- Ystyried sut i ymateb i ymddygiad rhywiol pryderus
- Edrych ar faterion cysylltiedig â chaniatâd ac ymddygiad rhywiol niweidiol i blant ar ôl yr arddegau
- Y camau gweithredu ataliol cadarnhaol i'w cymryd i amddiffyn plant rhag ymddygiad rhywiol niweidiol

Atal Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Sesiynau 2 awr anffurfiol i ehangu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o sut gall camfanteisio'n rhywiol ar blant ddigwydd, beth yw'r risg i blant a phobl ifanc a sut gellir gweithredu. Yn ei hanfod, rydyn ni'n rhoi hyder i rieni a gofalwyr i geisio help ac i weithredu os oes angen iddyn nhw wneud hynny.

Dyma gynnwys y Sesiwn:

- Y ffeithiau am gam-drin rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol a sut gallant ddigwydd
- Sut mae'r rhai sy'n cam-drin yn meithrin eu dioddefwyr
- Y rhesymau posib pam nad yw dioddefwyr yn siarad am beth sy'n digwydd
- Canfod arwyddion yn ymddygiad plant
- Y camau gweithredu ataliol cadarnhaol i'w cymryd i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio
- Gweithredu ar bryderon, rhoi ffynonellau o wybodaeth, cefnogaeth neu gyngor

I archebu sesiwn neu i gael mwy o wybodaeth:
Cysylltwch â mi ar fy ffôn symudol neu ar y cyfeiriad e-bost isod:

Gillian Jones, Rheolwr Cenedlaethol Cynorthwyol Stop It Now! Cymru
E-bost: gjones@stopitnow.org.uk
Ffôn: 07803 629628

Rheolwr Cenedlaethol Cynorthwyol Stop It Now! Cymru
Sefydliad Lucy Faithfull a/neu Stop it Now! Y DU ac Iwerddon
d/o Ty Diane Engelhardt, Cwrt Treglown, Ffordd Dowlais, CAERDYDD, CF3 4FD

@StopItNowWales

www.facebook.com/stopitnowUKandireland

www.parentsprotect.co.uk
www.stopitnow.org.uk
www.lucyfaithfull.org.uk

Teuluoedd yn Gyntaf
Families First

Gweithgareddau Eraill Stop it Now! Cymru:
Presenoldeb mewn cynadleddau a drefnir gan bartneriaid strategol, darparu stondinau gwybodaeth mewn digwyddiadau cymunedol neu broffesiynol, a chynnig taflenni a phosteri ar gyfer y cyhoedd neu ymarferwyr.